# TECHNIQUEST

## B A E   C A E R D Y D D




**>> Oriau Agor**

Mae Techniquest ym Mae Caerdydd yn croesawu ymwelwyr trwy'r flwyddyn. Rydym ar agor dros y penwythnos, dyddiau Llun Gŵyl y Banc a thrwy'r wythnos yn ystod gwyliau ysgol lleol.

**>> Oriau agor arferol:**

| | |
|---|---|
| **10.00 - 5.00** | ar y penwythnos, Gwyliau Banc a 7 diwrnod yr wythnos yn ystod gwyliau ysgol lleol. |
| **9.30 - 4.30** | trwy'r wythnos yn ystod tymor ysgol. (Dydd Mawrth – Dydd Gwener yn unig) |

Mae'r adeilad yn cael ei gau am ychydig ddyddiau dros y Nadolig. Rydym hefyd ar gau i ymwelwyr ar ddyddiau Llun yn ystod tymhorau ysgol

**>> Costau mynediad (yn cynnwys rhodd wirfoddol):**

| | |
|---|---|
| Oedolion | £7.00* |
| Plant (oed 4-16) | £5.00* |
| Consesiynau | £5.00* |
| Grŵp Teulu (2 oedolyn a hyd at 3 phlentyn) | £23.00* |
| Sioe Planetarium | £1.30 ychwanegol i bob person |

Mae Techniquest yn elusen gofrestredig ac mae prisiau mynediad yn cynnwys rhodd wirfoddol o ddeg y cant. Mae hyn yn galluogi Techniquest i hawlio Gift Aid ar 100% o'r cost mynediad.

Y prisiau mynediad heb y rhodd yw oedolion £6.30, plant £4.50, consesiynau £4.50, teulu £20.70

Derbynnir cardiau Mastercard, Visa a Maestro. Gellir cyfnewid eich talebau Tesco am fynediad unigol i oedolion, consesiynau a phlant. Nid ydynt yn ddilys ar gyfer mynediad i Grŵp Teulu, sydd eisoes wedi ei ostwng yn helaeth.

## >> Cyfleusterau

Mae Techniquest yn gyrchfan wych ar gyfer y teulu cyfan. Mae'n cynnig popeth sydd ei angen arnoch am ddiwrnod allan dan yr unto. Mae ardal arddangos ryngweithiol, Theatr Wyddoniaeth, Planetarium, a Labordy. Mae staff Techniquest wrth law i gynnig help a chefnogaeth i'r holl ymwelwyr. Ceir mynediad cadair olwyn cyfleus, toiledau i'r anabl a lifft i bob rhan o'r adeilad.

Mae'r caffi yn cynnig amrywiaeth o ddiodydd poeth ac oer, brechdanau, byrbrydau a phrydau poeth. Ceir siop sy'n cynnwys teganau, llyfrau ac anrhegion diddorol.



*Rhys Wynne/Comin Creadigol Wikimedia*

## >> Cyfarwyddiadau teithio

**Ar drên:**
Gwasanaeth rheolaidd o Gaerdydd (Heol y Frenhines) i Orsaf Bae Caerdydd – pum munud o gerdded.
Gweler Trenau Arriva Cymru am ragor o wybodaeth.

Os ydych chi'n teithio i Orsaf Ganolog Caerdydd ewch ar fws Bae Caerdydd o du allan i'r orsaf (rhif 6).

**Ar fws:**
'Baycar' rhif 6 o ganol y ddinas neu rhif 8 o Ysbyty'r Mynydd Bychan neu'r Orsaf Fysiau Canolog. Gweler Traveline-Cymru am ragor o wybodaeth.

**Mewn car:**
**O du allan i Gaerdydd:**
Gadewch yr M4 ar gyffordd 33 a dilyn yr arwyddion brown am Fae Caerdydd ar ffordd ddeuol A4232.

**O Gaerdydd ei hun:**
Dilynwch yr arwyddion o ganol y ddinas i Fae Caerdydd a dilyn yr arwyddion brown i Techniquest.

**Parcio**
Mae yna feysydd parcio talu ac arddangos gyferbyn â Techniquest, ac ar Stryd Havannah y tu ôl i'r adeilad. Gall deiliaid bathodynnau anabledd barcio o flaen yr adeilad.

Parcio bysiau o flaen yr adeilad - rhaid bwcio ymlaen llaw.

Techniquest
Stryd Stuart
Caerdydd
CF10 5BW

TECHNIQUEST
BAE CAERDYDD